



Mike Hedges AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Newid yn yr Hinsawdd, Materion Gwledig a'r Amgylchedd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

21 Tachwedd 2018

Annwyl Mike

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 9 Tachwedd yn gofyn am eglurhad pellach yn dilyn fy mhresenoldeb yn sesiwn y Pwyllgor ar adroddiad cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru 2019-20 a gynhaliwyd ar 8 Tachwedd.

Derbyniwch fy ymddiheuriadau am oedi ychydig cyn ymateb. Roedd angen gorffen trafod gyda DEFRA ynghylch rhai o'r ymholiadau a godwyd gennych am Fil Amaethyddiaeth y DU.

Ystyried Rheoliadau Newid yn yr Hinsawdd (Cyllidebau Carbon) (Cymru) 2018

Rwyf wedi nodi eich bwriad i adrodd ar y rheoliadau, yn unol â Rheol Sefydlog 27.8.

Cynllun Cyflawni Carbon IseI

Bydd copi o'r Cynllun Cyflawni ar gael i'r Pwyllgor yn ystod yr wythnos sy'n dechrau ar 18 Mawrth 2019.

Bil Amaethyddiaeth y DU

Rwy'n hyderus nad yw'r Bil yn llesteirio polisi yn y dyfodol. Mae darpariaethau Cymru yn y Bil yn rhoi pwerau galluogi eang sy'n caniatáu hyblygrwydd i ystod eang o gynlluniau talu posibl gael eu cynllunio a'u gweithredu yn dibynnu ar natur ymadawiad y DU o'r UE a chanlyniad yr ymgynghoriad 'Brexit a'n Tir'.

Mae angen cymryd y pwerau eang hyn yn awr fel y gall y Llywodraeth ymateb yn briodol unwaith y gwneir penderfyniadau. Fel yr amlinellais yn fy llythyr ar 30 Hydref, hoffwn sicrhau'r Pwyllgor na fydd penderfyniadau polisi yn cael eu gwneud cyn ymgynghori ymhellach a bydd angen i ddeddfwriaeth eilaidd ar wahân ddod i rym, gan roi cyfle i'r

Cynulliad graffu'n iawn. Rwyf hefyd yn cadarnhau fy mwriad i gyflwyno Bil Amaethyddiaeth (Cymru) i'r Cynulliad unwaith y gwneir penderfyniadau ar bolisi yn y dyfodol.

Os bydd y DU yn gadael yr UE heb gytundeb Brexit, bydd rheoliadau newydd yn cywiro diffygion yn rheoliadau'r UE (gan gynnwys rheoliad Taliadau Uniongyrchol y Polisi Amaethyddol Cyffredin (CAP) ar gyfer blwyddyn y cynllun 2020) yn dod i rym ar 29 Mawrth 2019 o dan Ddeddf Ymadael y DU. Yn y senario hon, byddai'r rheoliad Taliadau Uniongyrchol yn gymwys tan y flwyddyn hawlio 2020 yn unig. Felly, mae'r ddarpariaeth i ganiatáu gwneud Taliadau Uniongyrchol y tu hwnt i 2020 yn cael ei chymryd o dan Fil Amaethyddiaeth y DU.

Pe bai cytundeb ar Gyfnod Gweithredu yn rhedeg hyd at 31 Rhagfyr 2020, byddai rheoliadau'r UE yn parhau i fod yn gymwys tan y dyddiad hwnnw, ac eithrio rheoliad Taliadau Uniongyrchol PAC nad yw wedi'i gynnwys yn y Cytundeb Ymadael drafft ar gyfer blwyddyn y cynllun 2020. Fel y'i drafftwyd ar hyn o bryd, nid yw'r Bil Amaethyddiaeth yn cynnwys pwerau i wneud Taliadau Uniongyrchol yn 2020 yn y senario hon. Ni ellir cyflwyno'r mecanwaith deddfwriaethol i ddatrys hyn nes bod y Senedd wedi cael pleidlais ystyrion ar y Cytundeb Ymadael terfynol. Os ceir cytundeb, disgwyliwn i'r ddarpariaeth barhau i wneud Taliadau Uniongyrchol ym mlwyddyn hawlio 2020 i'w cymryd o dan ddeddfwriaeth y DU.

Fel yr ydych yn cydnabod, roeddwn yn glir iawn i'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol fod mater rheolau Sefydliad Masnach y Byd yn llinell goch i Lywodraeth Cymru ac ni fyddwn yn gallu argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad i'r Bil hyd nes y byddai hyn wedi ei ddatrys. Rwyf wedi cael trafodaethau cadarnhaol diweddar gyda'r Ysgrifennydd Gwladol ac mae swyddogion hefyd yn gwneud cynnydd da wrth ddod o hyd i ateb. Efallai na fydd angen diwygio'r Bil i gyflawni hyn a gallai fod yn bosibl dod i ganlyniad boddhaol trwy gytundeb rhwng llywodraethau ynghylch sut y dylai'r ddarpariaeth bresennol weithredu. Rwy'n gobeithio y bydd ein dwy lywodraeth yn dod i gytundeb ac y byddaf yn gallu argymhell bod y Cynulliad yn rhoi ei gydsyniad maes o law.

Bil Pysgodfeydd y DU

Mae Rheol Sefydlog 29 yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio memorandwm cydsyniad deddfwriaethol fel rheol o fewn pythefnos i gyflwyno'r Bil ac rydym bob amser yn ceisio cydymffurfio â'r dyddiad cau hwnnw. Nid yw hyn wedi bod yn bosibl mewn ambell achos diweddar, ond mae'n rhaid inni gydnabod bod gan y Bil Pysgodfeydd faterion cydsynio sylweddol i'w hystyried, am ei fod yn Fil y DU sy'n delio â goblygiadau Brexit ar gyfer sectorau pwysig y mae cyfrifoldeb amdanynt wedi'i ddatganoli. O ganlyniad, mae wedi cymryd mwy o amser nag arfer i osod y memorandwm a osodwyd ar 15 Tachwedd. O ran materion cydsyniad y Cynulliad o'r fath, mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i gael digon o amser craffu ar gyfer y Pwyllgorau.

Cofion,



Lesley Griffiths AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig